YBG

Y BLAID GOMWNYDDOL

CP

THE COMMUNIST PARTY

# GRYM GO IAWN I BOBL CYMRU

## Manifffesto Dros Ddyfodol Teg, Sosialaidd a Gwyrdd

YBG
Y BLAID GOMWNYDDOL

CP
THE COMMUNIST PARTY

# GRYM GO IAWN I BOBL CYMRU

# Manifffesto Dros Ddyfodol Teg, Sosialaidd a Gwyrdd


https://welshcommunists.org/cy/

wales@communistparty.org.uk

# Ffordd Arall o Fyw sy'n Deg, yn Sosialaidd ac yn Werdd

Mae angen newid go iawn ar Gymru. Mae grym a chyfoeth wedi crynhoi yn nwylo nifer cyfyngedig o bobl, tra bod gweithwyr a'u teuluoedd yn wynebu costau cynyddol, gwaith ansicr, argyfwng tai a gwasanaethau cyhoeddus sydd mewn cryn drafferth. Disgrifia'r maniffesto hwn ffordd arall o drefnu ein hunain: Cymru sy'n gweithredu ei grym mewn ffordd ddemocrataidd ac er budd y bobl gyffredin, nid er elw busnesau mawr a'r hynod gyfoethog.

Nid damwain mo tlodi, anghydraddoldeb a dinistr amgylcheddol. Canlyniad ydynt o system economaidd sy'n gosod elw personol o flaen anghenion dynol ryw. Mae Comiwnyddion yn gweithio i greu Cymru deg, Cymru werdd a Chymru sosialaidd yn seiliedig ar reolaeth ddemocrataidd o'n heconomi, gwasanaethau cyhoeddus cryf a solidariaeth yn ein cymunedau ac yn rhyngwladol.

# Grym a Democratiaeth

Mae democratiaeth go iawn yn golygu pleidleisio bob hyn a hyn o flynyddoedd. Golyga bod gennym y gallu i ddweud ein dweud ynghylch y penderfyniadau beunyddiol sy'n effeithio ar ein bywydau yn y gwaith, o fewn ein cymunedau ac ar hyd y wlad.

**Dyna pam fod y Comiwnyddion yn bwriadu:**

- Ymestyn democratiaeth i'r gweithle, gan roi hawliau cyfunol i weithwyr dros gyflogau ac amodau gwaith, ailstrwythuro a phenderfyniadau sy'n ymwneud â buddsoddi.
- Cryfhau hawliau undebau llafur, yn cynnwys yr hawl i drefnu o fewn undebau llafur, i fargeinio'n gyfunol ac i gydsefyll â chydweithwyr heb fod ar unrhyw un ofn colli ei swydd.
- Gwaredu ar wahaniaethu cyflog yn erbyn menywod a gweithwyr ifainc.
- Grymuso cymunedau ac awdurdodau lleol gyda gwir reolaeth dros wasanaethau, datblygiad a buddsoddiad.
- Amddiffyn ac ymestyn hunanlywodraeth i Gymru o fewn Prydain ffederalaidd sy'n seiliedig ar gydraddoldeb a solidariaeth.

Pwerau cyfyngedig sydd gan Gymru ddatganoledig. Serch hynny mae polisïau megis presgripsiynau am ddim; parcio am ddim mewn ysbytai; mynediad am ddim i amgueddfeydd; diogelu rhag preifateiddio ysgolion a gofal iechyd; brecwast am ddim i blant ysgol gynradd; achub maes awyr Caerdydd (Cymru) rhag dirywio a chau; teithio am ddim ar fysys i'r sawl dros eu 60; yr hawl i bobl ifainc 16 ac 17 mlwydd oed bleidleisio yn etholiadau Cymru ac ailsefydlu grantiau i fyfyrwyr yn hytrach na benthyciadau, wedi dangos ein bod yn gallu troedio llwybr gwahanol pan fod gennym y pŵer i benderfynu.

Ond mae llywodraethau San Steffan wedi tynnu pwerau buddsoddi diwydiannol yn ôl o Gymru yn unol â'r Ddeddf Marchnad Fewnol; maent wedi cyfyngu'r pwerau creu polisïau a ddychwelwyd o Frwsel wedi i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd; maent wedi gwrthod datganoli Ystâd y Goron yng Nghymru i'r Senedd (yn wahanol i'r Alban); ac maent wedi rhwystro'r cynlluniau Cymreig i warchod cyflogau gweithwyr a gwahardd asiantaethau cyflogaeth rhag torri streic. Mae ar y Comiwnyddion eisiau gwarchod ac ymestyn pwerau ac adnoddau ein sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru, fel bod mwy o bolisïau'n cael eu creu yng Nghymru er budd pobl Cymru.

# Economi Wedi ei Drefnu er Budd y Bobl, Nid er Elw

Mae Cymru wedi dioddef o ddegawdau o ddad-ddiwydiannu, ansefydlogrwydd ac esgeulustod. Mae anrhefn y farchnad a'n dibyniaeth ar gorfforaethau rhyngwladol wedi methu ein cymunedau. Mae angen i ni gynllunio mewn ffordd ddemocrataidd ac mae angen perchnogaeth gyhoeddus arnom.

**Dyna pam mae'r Comiwnyddion yn mynnu:**

- Gwarchod swyddi mewn diwydiannau a gwasanaethau hanfodol fel mater o flaenoriaeth.
- Gwahardd y weithred o dynnu asedau i ffwrdd, diswyddiadau torfol a'r arfer o 'ddiswyddo ac ail-gyflogu'.
- Gosod mentrau sy'n methu ond sy'n strategol bwysig, mewn perchnogaeth gyhoeddus.
- Sefydlu Awdurdod Datblygiad Economaidd Cenedlaethol Cymreig er mwyn cynllunio'r gwaith o fuddsoddi a chyfeirio cyfalaf preifat i'r mannau lle mae fwyaf ei angen.
- Gofalu bod ariannu cyhoeddus yn sicrhau perchnogaeth gyhoeddus neu gyfranddalwyr.
- Cefnogi cydweithfeydd a mentrau sydd dan berchnogaeth gyhoeddus ac sydd wedi eu gwreiddio mewn cymunedau lleol.

# Cymru Werdd ar Gyfer Cenedlaethau'r Presennol a'r Dyfodol

Mynna'r argyfwng hinsawdd ein bod yn gweithredu ar fyrder.

Mae'r Comiwnyddion yn mynnu bod polisïau sy'n gwarchod gweithiwyr, cymunedau a'r blaned yn:

- Buddsoddi'n helaeth mewn ynni adnewyddadwy yn cynnwys gwynt, yr haul a'r pŵer llanw anhygoel sydd gennym yn y Môr Hafren.
- Gosod ynni a gwasanaethau bws a rheilffyrdd o fewn perchnogaeth gyhoeddus.
- Cynyddu trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy ac integredig er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar geir.
- Cefnogi polisïau ynni ac amgylcheddol sy'n sicrhau swyddi, cyflogau a chyfleoedd i weithwyr allu ail-hyfforddi.
- Diwygio defnydd tir ac amaeth er mwyn blaenoriaethu diogelwch bwyd, atgyfnerthu'r amgylchfyd a dal carbon.
- Gosod Ystâd y Goron a'i elw o fewn Cymru dan berchnogaeth gyhoeddus.

- Buddsoddi er mwyn gwarchod cymunedau rhag llifogydd ac effeithiau eraill newid hinsawdd.
- Gwrthod masnachu carbon mewn ffordd sy'n seiliedig ar y farchnad a rheoli'r llygrwyr yn uniongyrchol.

# Iechyd, Gofal a Lles

Mae iechyd, gofal cymdeithasol a gofal i'r henoed yn wasanaethau cyhoeddus; nid ydynt yn nwyddau i'w gwerthu. Dangosodd pandemig COVID beryglon preifateiddio a darpariaeth dameidiog.

**Dywed y Comiwnyddion bod yn rhaid:**

- Gwarchod a chryfhau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol cyhoeddus yng Nghymru a sicrhau ei fod yn rhydd o breifateiddiad.
- Gosod cynhyrchiant fferyllol a chadwyni cyflenwi meddygol dan berchnogaeth gyhoeddus.
- Amnewid y polisi iechyd am un sy'n rhwystro afiechydon drwy fynd i'r afael â'r argyfwng tai, llygredd, cyflogau isel ac ansefydlogrwydd.
- Cynllunio darpariaeth feddygol a deintyddol sydd am ddim i bawb er mwyn ymateb i anghenion lleol.
- Creu Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol sydd wedi ei ariannu'n llawn, wedi ei ddarparu'n gyhoeddus ac sy'n rhad ac am ddim ar y pwynt pan fod angen y gwasanaeth.
- Sicrhau bod gan weithwyr gofal gyflogau teg, cytundebau diogel a hawliau cyflogaeth llawn.
- Gwarchod a chynllunio'r ddarpariaeth o dai bach cyhoeddus er mwyn ymateb i anghenion cymunedau lleol.

# Parchu Gofal, Rhoi Diwedd ar Dlodi

Mae gwaith gofal cyflogedig ac anghyflogedig, yn cynnal ein cymdeithas ac eto ni roir y pwys priodol ar y gwaith hwn, sydd yn amlach na heb yn cael ei wneud gan fenywod.

**Dywed y Comiwnyddion bod yn rhaid:**

- Cyflwyno cyflog cymdeithasol i rieni a gofalwyr sy'n gadael gwaith llawn amser er mwyn gofalu am eraill.
- Sicrhau bod gan ofalwyr hawliau llawn i bensiwn y wladwriaeth.
- Ehangu cyfnodau mamolaeth a thadolaeth cyflogedig a gwarchod swyddi rhieni.
- Darparu gofal plant am ddim i'r sawl a hoffai ddychwelyd i'r gwaith.
- Ymrwymo i roi diwedd ar dlodi plant drwy gefnogaeth incwm, gwasanaethau a thai diogel.

# Mae Cartref yn Hawl Dynol

Mae pob un person yn haeddu cartref diogel a fforddiadwy. Mae'n rhaid bod tai yn gwasanaethu anghenion ein pobl, nid elw hapfasnachwyr a'r cyfoethog segur.

**Dyna pam fod y Comiwnyddion yn dweud bod yn rhaid:**

- Lansio rhaglen helaeth er mwyn adeiladu tai cyngor a chymdeithasol.
- Gosod tai cymdeithasol dan reolaeth gyhoeddus gyfrifol.
- Defnyddio pwerau pryniant gorfodol i sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto.
- Adnewyddu pob cartref er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau biliau ac allyriadau carbon.
- Cyflwyno rheolaeth rhent a sicrhau diogelwch y tenantiaid.
- Sicrhau bod digonedd o lochesau ar gael i bob menyw a'i phlant sy'n dianc rhag trais domestig.
- Rhoi diwedd ar fyrder ar ddigartrefedd, gorboblogi a chysgu yn yr awyr agored ac ariannu gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth dda i deuluoedd a phobl fregus.
- Gwaredu ar y Dreth Ystafell Wely ac ailsefydlu'r budd-daliadau tai yn gyfan gwbl.

# Addysg, Pobl Ifainc ac Addysg Gydol Oes

Dylai addysg ddatgloi potensial dynol ryw nid atgyfnerthu anghydraddoldeb.

**Dyna pam fod Comiwnyddion yn dweud bod yn rhaid:**

- Cyfnewid profion sy'n rhoi llawer yn y fantol, gyda systemau asesu teg a gwaraidd
- Ehangu addysg cyfrwng Gymraeg ledled y wlad gan gefnogi'r ymgyrch 'Addysg. Gymraeg i Bawb' fel nad oes un plentyn yng Nghymru'n cael ei amddifadu o'r Gymraeg.
- Cael gwared ar addysg breifat a buddsoddi mewn addysg gyhoeddus gynhwysfawr.
- Rhoi diwedd ar anghyfiawnder y polisi 'cyflog yn ystod y tymor yn unig' i staff cefnogol ysgolion.
- Sicrhau bod addysg yn rhad ac am ddim i bobl o bob oedran, yn cynnwys hyd at lefel gradd ac ôl-radd a gwaredu ar ddyledion myfyrwyr.

Ein Pobl Ifainc:

- Sicrhau swyddi diogel, prentisiaethau a chyflog byw gwirioneddol.

- Darparu trafnidiaeth am ddim at ddibenion addysg a chyfweliadau swyddi; a thrafnidiaeth gyhoeddus a thai fforddiadwy.
- Ailsefydlu gwasanaethau ieuenctid, canolfannau hamdden a mannau cymunedol.
- Ehangu'r mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl a lles.

# Cefnogi'r Gymraeg a'n Diwydiannau Celfyddydol

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Serch hynny, mae'r cyfleoedd i bobl ddysgu a defnyddio'r iaith wedi eu cyfyngu gan fuddsoddiad cyhoeddus annigonol a diffyg hawliau cryf ac amddiffyniadau ehangach ar draws yr economi.

Dylai diwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru yn y ddwy iaith gael eu hyrwyddo a'u cynllunio mewn ffordd sydd wedi ei rheoli a'i threfnu'n dda. Dylai'r rhain gynnwys:

- Cefnogaeth i gylchgronau a'r cyfryngau yng Nghymru.
- Dylid datganoli hawliau darlledu'n gyfan gwbl i Gymru.
- Dylid creu cynlluniau lleol, integredig ar gyfer y Gymraeg, sy'n cyfuno dadansoddiad o anghenion tai, darpariaeth addysg a chynaliadwyedd economaidd.
- Cefnogaeth i artistiaid, awduron a chyfieithwyr ym mhob maes.
- Rhoi mwy o bwyslais ar hanes a diwylliant Cymraeg a Chymreig ar lefel lleol a chenedlaethol o fewn ein hysgolion.

# Nawdd Teg a Chyfiawnder Economaidd

Mae angen y grym a'r adnoddau ar Gymru i fuddsoddi yn ei dyfodol ac i ailddosbarthu cyfoeth yn deg.

**Cred Comiwnyddion Cymru y dylem:**

- Ddisodli ein Treth Gyngor annheg ac yn ei le cyflwyno treth incwm lleol teg.
- Sicrhau ein bod ni'n derbyn ein cyfran deg o nawdd o Ystâd y Goron, HS2 a phrosiectau rheilffyrdd eraill y Deyrnas Unedig a disodli'r fformiwlâu ariannu annheg sy'n rhoi Cymru dan anfantais.
- Cyflwyno trethi cyfoeth a threthi uwch ar elw corfforaethol.
- Ehangu benthyciadau cyhoeddus gyda chyfradd llog isel i'r Senedd ac awdurdodau lleol.
- Defnyddio caffaeliad cyhoeddus i gefnogi swyddi a diwydiannau lleol.

# Rhyngwladoldeb a Heddwch

Rydym yn sefyll dros heddwch, cydweithrediad a solidariaeth ryngwladol. Ni ddylid fyth ddefnyddio Cymru i wasanaethu imperialaeth Brydeinig a'r Unol Daleithiau, rhyfel ac ecsploetiaeth.

**Mae'r Comiwnyddion yn dweud y dylem:**

- Wrthwynebu rhyfeloedd imperialaidd a militariaeth pa un ai ym Mhalestina, Feneswela, yr Wcráin yntau yn unrhyw fan arall yn y byd.
- Tynnu'r holl rwydwaith milwrol imperialaidd allan o Gymru.
- Gwrthwynebu gorsaf radar 'Gofod Dwfn' yr Unol Daleithiau sydd wedi ei gynllunio ar gyfer Sir Benfro.

Mae'r twf mewn grwpiau adain dde eithafol a grwpiau ffasgaidd yng Nghymru'n gysylltiedig ag agenda elw'n gyntaf cyfalafiaeth sy'n achosi rhaniadau a gwrthdaro drwy'r byd. Gyda'n cymrodyr yn y mudiadau heddwch a chomiwnyddol, yr undebau llafur a'r mudiadau menywod, gwrthwynebwn y datblygiadau hyn gartref a thramor.

# Gwir rym i bobl Cymru!

Gobeithiwn yn fawr fod y maniffesto hwn yn eich hysbysu ac yn eich ysbrydoli chi a phobl eraill o fewn ein cymunedau, ein hundebau llafur a'n mudiadau gwleidyddol.

Mae gan Gomiwnyddion Cymru hanes balch o gefnogi pobl Cymru yn eu brwydr dros gyfiawnder cymdeithasol a hunanlywodraeth cenedlaethol. Rydym wedi brwydro ac ymgyrchu yn erbyn diweithdra torfol; y Prawf Modd creulon a throi pobl allan o'u tai; yn erbyn hiliaeth ac yn erbyn ffasgaeth; dros Senedd i Gymru, dros TUC i Gymru a hawliau'r Gymraeg; dros renti teg a mwy o dai cyngor; dros amgylchedd glanach a mwy diogel; ac mewn undod â phobl sy'n ymladd dros ryddid yn Ne Affrica, Chile, Gwlad Groeg, Cyprus, Irac, Iran a Phalestina yn ystod cyfnod apartheid.

Credwn fod Cymru arall yn bosib, un lle rhennir y cyfoeth, lle mae democratiaeth yn fyw, lle rydym yn gwarchod yr amgylchfyd a lle daw anghenion dynol ryw o flaen elw preifat.

**Gyda'n gilydd, drwy ymdrech gyfunol a thrwy weithredu'n ddemocrataidd, gallwn ennill gwir rym i bobl Cymru!**

**Pleidleisiwch dros y Comiwnyddion.**

**Brwydrwch dros eich Cymuned.**

**Newidiwch bopeth.**

Gweler ein gwefan sy’n cymharu polisïau ac yn cyhoeddi ein datganiadau ar y pleidiau sy'n ymgeisio yn etholiadau'r Senedd yn 2026:

`https://welshcommunists.org/cy/etholiad-senedd-2026/`

Argraffwyd gan Cardiff Bay Print, Uned T203, Tŷ Titan, Canolfan Fusnes Bae Caerdydd, Heol Titan, Caerdydd, CF24 5BS. Argraffwyd ar ran y Blaid Gomiwnyddol, Llawr Uchaf, Tŷ Ruskin, 23 Heol Coombe, Croydon CR0 1BD.